

Hu w



Tric
a Chic



Roedd Huw yn byw mewn
fflat ar y rhiw yn y pentref a
heddiw roedd e yn y gwely.



Roedd yn gorwedd o dan
y blancedi piws, cynnes yn
teimlo'n sâl. Roedd rhywbeth
mawr yn bod arno. Doedd e
ddim eisiau codi ac roedd
lliw od arno.



Daeth ei fam i mewn i'r
ystafell wely i weld oedd
eisiau bwyd arno.



"O! Hw. Beth sy'n bod?
Rwyd ti'n edrych yn llwyd.
Wyt ti eisiau uwd i'w fwyta?"
gofynnodd.



"Dim diolch," atebodd Huw.
"Rydw i'n sâl."



"Wyt ti eisiau cawl cyw iâr?"



"Dim diolch," atebodd Huw.
"Rydw i'n sâl."



Druan o Huw. Tybed beth
sy'n bod arno?



Mae Huw yn y ffliwl!



Rhaid iddo aros yn y gwely
cynnes.

Rhaid iddo guddio o dan y
blancedi piws. Druan o Huw.

